# Adroddiad Arolygu

**Clwb y Ddraig @ Hendre**

**Ysgol Iau Hendre**
**Ffordd Sant Cennydd**
**Caerffili**
**CF83 2RP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

21/6/22

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chlwb y Ddraig @ Hendre

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal y tu allan i oriau ysgol |
| Darparwr cofrestredig | Clwb y Ddraig Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 32 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Cânt gyfleoedd i ddatblygu ystod dda o sgiliau annibyniaeth drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau chwarae diddorol ac ysgogol. Mae'r plant yn ffurfio perthynas agos â'i gilydd ag â'r staff, sy'n arwain at ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn cydweithio'n dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn iach. Maent yn cynllunio amrywiaeth dda o weithgareddau, sy'n cynnwys diddordebau a syniadau'r plant. Mae'r staff yn dilyn ac yn deall polisïau a gweithdrefnau, sy'n sicrhau llesiant y plant yn effeithiol.

Lleolir y lleoliad o fewn ysgol gynradd. Mae'n groesawgar ac wedi'i drefnu'n dda ar gyfer gwahanol grwpiau oedran ac ar gyfer diddordebau'r plant. Mae'r mannau dan do ac yn yr awyr agored yn addas i'r plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn y lleoliad. Mae'r tîm rheoli yn cefnogi'r staff yn eu rolau ac yn buddsoddi yn natblygiad y staff, gan sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwnânt welliannau lle bo angen er lles y plant yn eu gofal. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad a'r gofal a gaiff eu plant yn fawr.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yma yn fawr. Maent wedi ymgartrefu ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Mae gan y plant gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis eu gweithgareddau eu hunain ac yn symud yn rhwydd rhwng yr ardal dan do a'r ardal awyr agored. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r trefniadau arferol ac yn dangos lefel uchel o annibyniaeth. Hyrwyddir eu hannibyniaeth gan eu bod yn paratoi eu byrbryd eu hunain. O dan oruchwyliaeth, mae'r rhan fwyaf o’r plant yn defnyddio'r tostiwr a'r efel ddiogelwch yn annibynnol. Gwnânt benderfyniadau bwyta'n iach o'r dewisiadau sydd ar gael i sicrhau eu bod yn bwyta byrbryd cytbwys.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn dda ar y cyfan ac maent yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Mae'r plant wedi ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â'r oedolion ac â'i gilydd. Wrth ymarfer hollti'r afl a rholio tuag ymlaen, mae’r plant o wahanol oedrannau yn llongyfarch ei gilydd, gan ddweud “da iawn” ac “waw, mae hynna'n wych”. Maent yn annog ei gilydd ac yn cael llawer o hwyl. Mae'r plant yn amlwg wedi ymlacio, yn gyfforddus ac yn fodlon yn y lleoliad. Er enghraifft, mae’r plant yn cydweithio ac yn rhannu adnoddau yn ystod gweithgaredd crefft. Mae llawer o'r plant yn canolbwyntio'n dda, gan gynnal diddordeb yn y gweithgaredd y maent wedi'i ddewis am gyfnod estynedig o amser.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r trefniadau arferol ac yn dangos lefel dda o annibyniaeth. Er enghraifft, maent yn cyrraedd yn hapus ac yn gwenu, yn dilyn trefn arferol gyfarwydd, ac yn dechrau ar eu gweithgareddau ar unwaith. Mae'r plant yn hapus ac yn mynegi eu mwynhad a'u brwdfrydedd am y lleoliad. Maent yn dweud wrthym eu bod yn mwynhau chwarae y tu allan a chwarae gyda ffrindiau, ac yn mwynhau gweithgareddau crefft a gwyddoniaeth. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn dewis defnyddio amrywiol ddeunyddiau wedi'u hailgylchu i greu eu senarios chwarae rôl dychmygol eu hunain.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff systemau da ar waith i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, mae'r plant yn cael eu casglu o'r ysgol fabanod a'u hebrwng yn ddiogel i'r lleoliad gan ddefnyddio'r 'bws cerdded'. Maent yn darparu bwydlen gytbwys yn unol â pholisi bwyta'n iach y lleoliad. Rhennir gwybodaeth sy'n ymwneud ag alergeddau'r plant gyda'r staff ac mae'n hygyrch iddynt. Mae gweithdrefnau diogelu trylwyr ar waith ac yn hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r staff yn deall rhai o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu. Maent yn cydnabod yr angen i fod yn wyliadwrus ac yn sicr ynghylch y prosesau i'w dilyn i ddelio ag unrhyw bryderon am y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn glir ynghylch y broses os gwneir honiad yn erbyn yr unigolyn cyfrifol.

Mae'r staff yn gymwys ac yn ymroddedig i'w rôl. Maent yn dweud wrthym eu bod yn mwynhau eu rôl ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y rheolwyr. Mae pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol y cwmni, sy'n cynnwys hyfforddiant hylendid bwyd, hyfforddiant diogelu a hyfforddiant ar ddyletswydd 'Prevent'. Mae'r holl staff wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac yn hyderus wrth ymdrin â mân anafiadau. Yn ogystal, mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaeth rhwng damweiniau a digwyddiadau. Mae'r staff yn cofnodi'r rhain yn fanwl, ac, ar wahân i nifer fach iawn o eithriadau, mae'r ffurflenni'n cael eu harwyddo gan y rhieni a'r staff. Mae ganddynt wybodaeth gyfredol am egwyddorion gwaith chwarae ac mae eu disgwyliadau o'r plant yn realistig ac yn cael eu llywio gan anghenion unigol. Maent yn cynllunio gweithgareddau addas i ddatblygu ystod o sgiliau ac maent yn cefnogi'r plant yn dda yn eu chwarae. Maent yn rhannu profiadau arferion da gyda chydweithwyr o leoliadau eraill y cwmni, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu rôl.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn modd caredig a gofalgar. Maent yn defnyddio ychydig o Gymraeg achlysurol, megis "dim ots" a "diolch", sydd yn ei dro yn annog y plant i ddefnyddio eu Cymraeg achlysurol. Maent yn gyson yn eu hagwedd ac yn ystyriol o oedran a chamau datblygu'r plant wrth fynd ati i reoli materion yn ymwneud ag ymddygiad. Mae'r staff yn defnyddio llais meddal i dynnu sylw'r plant sy'n rhwystredig neu'n ofidus, ac yn eu canmol am eu hymdrechion. Mae'r staff yn esiamplau da cadarnhaol ac yn rheoli pob un o'u rhyngweithiadau'n briodol.

## Yr Amgylchedd Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Lleolir y lleoliad yn neuadd Ysgol Iau Hendre, sydd â mynediad i ardal awyr agored sydd wedi'i gorchuddio'n rhannol. Mae'r holl gyfleusterau'n groesawgar ac yn hygyrch ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Cynhelir gwiriadau diogelwch dyddiol gan y staff i nodi a gwaredu ag unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofrestr o'r plant sy'n mynychu. Maent yn monitro pwy sy'n llofnodi wrth fynd i mewn i'r lleoliad a'i adael, ac yn sicrhau y cynhelir neu y rhagorir ar gymarebau staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu ymarferion tân rheolaidd ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel. Caiff y rhain eu hamseru, eu dyddio a'u gwerthuso'n ofalus. Mae asesiadau risg ar waith, sy'n cynnwys diogelwch tân, COVID-19, a gweithgareddau'r plant. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd gan y person â chyfrifoldeb ac mae'r staff yn cynnal gwiriadau dyddiol. Fodd bynnag, nid yw rhai risgiau posibl sy'n benodol i'r lleoliad hwn wedi'u nodi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion o'r holl ymwelwyr â'r lleoliad, ond nid oedd hawl gan ymwelwyr i fynd i mewn i'r adeilad yn ystod pandemig COVID-19 oni bai fod hyn yn hanfodol. Mae awdurdodau'r ysgol yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ac am wasanaethu cyfleustodau ac yn rhannu gwybodaeth gyda'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn darparu ardaloedd golau i'r plant eu harchwilio. Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da, ynghyd ag amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Gall y plant gael mynediad i'r holl offer yn hawdd, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Mae offer ac adnoddau yn doreithiog ac yn briodol ar gyfer cyfnod datblygiad yr holl blant, gan hyrwyddo chwilfrydedd a'r awydd i ddarganfod. Mae'r ardal fechan tu allan ger y neuadd wedi'i gorchuddio'n rhannol â chanopi mawr sy'n annog plant i chwarae yn yr awyr agored pan fo'r tywydd yn wlyb. Mae'r ardal hon yn darparu ystod dda o gyfleoedd i blant chwarae'n egnïol ac yn ymestyn eu dysgu a'u datblygiad. Mae cynllun yr ardal hon yn rhoi rhyddid i'r plant archwilio ac yn cynnig heriau sy'n briodol o ran oedran. Mae'r plant yn edrych ymlaen at adeiladu cuddfannau, ymlacio ar y meinciau picnic a gweithgareddau chwarae rôl. Mae'r lleoliad hefyd yn gwneud defnydd o iard chwarae'r ysgol. Mae'r ardal yn ddeniadol ac yn cynnig cyfleoedd da iawn i'r plant chwarae'n egnïol. Mae'r plant yn defnyddio'r gofod i chwarae gemau iard chwarae ac i ddefnyddio'r offer dringo. Mae'r ardal hon wedi'i ffensio ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio wrth chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid yw'r ardal hon wedi'i chynnwys yn yr asesiadau risg.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Da

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn y lleoliad. Mae’r rhai sy’n gyfrifol yn cysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a sefydliadau eraill mewn modd amserol. Mae'r person â chyfrifoldeb, sydd newydd ei benodi, yn cyfarwyddo â'i rôl newydd yn y lleoliad. Mae’n elwa ar rwydwaith cymorth a phrosesau cryf y cwmni. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â’r holl reoliadau perthnasol ac yn bodloni safonau cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chedwir cofnodion. Fodd bynnag, mae angen diweddaru rhai polisïau, megis y polisi ymddygiad, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r arferion mwyaf cyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff yn effeithiol ac yn gweithio'n galed i adeiladu tîm cryf a phartneriaethau da. Maent yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn bodoli o fewn y lleoliad. Cynhelir cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd. Teimla'r staff eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a dywedant fod y tîm rheoli yn gwrando ar eu barn a bod yr arweinwyr tîm yn rhoi cymorth da. Maent yn rhannu profiadau arferion da gyda chydweithwyr o leoliadau eraill y cwmni, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu rôl. Mae’r hyfforddiant hwn yn cael effaith fuddiol ar y canlyniadau ar gyfer y plant sy’n mynychu’r lleoliad.

Mae gwaith hunanwerthuso yn fyfyriol ac yn nodi meysydd o gryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella trwy ystyried barn y rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon yn ddigon penodol i Glwb y Ddraig @ Hendre. Mae’r arweinwyr wedi ymrwymo i wella ac maent wedi croesawu’n llwyr eu harolygiad llawn cyntaf fel rhan annatod o’u hunanwerthuso a’u cynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn barod i dderbyn adborth a byddant yn gweithredu ar faterion a ddaw i'w sylw yn ddi-oed. Mae gweithdrefn gwyno ar waith, er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae partneriaethau gyda’r rhieni yn dda a dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus ag ansawdd y lleoliad a'u bod yn hyderus i drafod unrhyw faterion gyda'r staff. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd a gânt i ddiweddaru ac adolygu anghenion unigol eu plant wrth iddynt dyfu a datblygu. Mae perthynas dda iawn gyda’r ysgol, sy’n gweithio mewn partneriaeth â’r lleoliad.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Adolygu asesiadau risg a sicrhau eu bod yn cynnwys pob rhan o'r lleoliad.

A2. Sicrhau bod pob polisi yn adlewyrchu arferion cyfredol Clwb y Ddraig.

A3. Sicrhau bod yr adroddiad ansawdd gofal yn benodol i Glwb y Ddraig.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 16/08/2022